PWYLLGOR CYFLAWNI PORTFFOLIO - CYHOEDDUS

COFNODION, PENDERFYNIADAU A CHAMAU GWEITHREDU I'W CYMRYD

09:30-12:40 | 30 Ebrill 2026 | MS Teams

Yn Bresennol (Aelodau)	**Blaenly threnn au**	**Teitl**	**Sefydliad**
David Selway	DS	Cadeirydd y Pwyllgor	IGDC
Ruth Glazzard	RG	Cadeirydd Dros Dro'r Bwrdd	IGDC
Marian Wyn Jones	MJ	Aelod Annibynnol	IGDC

Yn Bresennol	**Blaenlythrennau**	**Teitl**	**Sefydliad**
Ifan Evans	IE	Cyfarwyddwr Gweithredol Strategaeth	IGDC
Chris Darling	CD	Cyfarwyddwr Materion Corfforaethol | Ysgrifennydd y Bwrdd	IGDC
Sam Hall	SH	Cyfarwyddwr Gwasanaethau Digidol Gofal Sylfaenol, Cymunedol ac Iechyd Meddwl.	IGDC
Sam Lloyd	SL	Cyfarwyddwr Gweithredol Gweithrediadau	IGDC
Michelle Sell	MS	Cyfarwyddwr Rhaglenni ac Ymgysylltu	IGDC
Meghan Morris	MM	Cyfarwyddwr Cynorthwyol Cynllunio	IGDC
Alison Maguire	AM	Cyfarwyddwr Rhaglen Diagnosteg	IGDC
Helen R Thomas	HRT	Arweinydd Rhaglen Gofal Brys a Gofal mewn Argyfwng	IGDC
Belinda Mills	BM	Cydlynydd Llywodraethu Corfforaethol/Risg	IGDC

Acronymau			
AIA	Awdurdod Iechyd Arbennig	WPAS	System Gweinyddu Cleifion Cymru
NDR	Adnodd Data Cenedlaethol	LINC	Rhwydwaith Gwybodaeth Labordai Cymru
SRO	Uwch Swyddog Cyfrifol	BAU	Busnes fel Arfer

DSPP	Gwasanaethau Digidol ar gyfer Cleifion a'r Cyhoedd	WICIS	System Wybodaeth Gofal Dwys Cymru
GIG	Gwasanaeth Iechyd Gwladol	IGDC	Iechyd a Gofal Digidol Cymru
WCCIS	System Wybodaeth Gofal Cymunedol Cymru	LIMS	System Rheoli Gwybodaeth Labordy
BIPAB	Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan	BIPCTM	Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg
LLC	Llywodraeth Cymru	PDC	Pwyllgor Cyflawni Portffolio
DMC	Mamolaeth Ddigidol Cymru	OBC	Achos Busnes Amlinellol
EPS	Gwasanaeth Presgripsiynau Electronig	RISP	Caffael y System Gwybodeg Radioleg
UAT	Profion Derbynioldeb Defnyddwyr	CDR	Storfa Data Gofal
BIPBC	Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr	WIVS	Gwasanaeth Dilysu Hunaniaeth Cymru
CDAI	Cynllunio a Darparu Ansawdd Integredig	DDaT	Bwrdd Digidol, Data a Thechnoleg
BIPBA	Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe		

Rhif yr Eitem	Eitem	Canlyniad	Cam Gweithredu i'w Gofnodi
RHAN 1 – MATERION RHAGARWEINIOL			
1.1	**Croeso a Chyflwyniadau** Croesawodd y Cadeirydd bawb i Gyfarfod Pwyllgor Cyflawni Portffolio Iechyd a Gofal Digidol Cymru. Darparodd y Cadeirydd hefyd hysbysiadau cadw tŷ ynghylch agweddau technegol ar gofnodi'r cyfarfod, yr egwyl arfaethedig, a'r disgwyliadau o ran ymddygiad safonol.	Nodwyd	Dim i'w nodi
1.2	**Ymddiheuriadau am Absenoldeb** • Laura Tolley, Pennaeth Llywodraethu Corfforaethol / Dirprwy Ysgrifennydd y Bwrdd • Rhidian Hurle, Cyfarwyddwr Meddygol Gweithredol	Nodwyd	Dim i'w nodi
1.3	**Datganiadau o Fuddiant** Nid oedd unrhyw ddatganiadau o fuddiant.	Nodwyd	Dim i'w nodi
RHAN 2 – AGENDA GYDSYNIO			
2.1	**Cofnodion y Cyfarfod Diwethaf** • Cyhoeddus **Penderfynodd y Pwyllgor Cyflawni Portffolio:** **GYMERADWYO** cofnodion y cyfarfod diwethaf.	Cymeradwywyd	Dim i'w nodi

2.2	**Blaengynllun Gwaith** **Penderfynodd y Pwyllgor Cyflawni Portffolio:** **NODI'R** Blaengynllun Gwaith	Nodwyd	Dim i'w nodi
2.3	**Cylch Gorchwyl y Pwyllgor** Nododd y Cadeirydd fod y Pwyllgor wedi'i ailenwi'n Bwyllgor Cyflawni Portffolio i adlewyrchu ei gwmpas ehangedig, sydd bellach yn cynnwys goruchwylio cynhyrchion yn ogystal â rhaglenni. **Penderfynodd y Pwyllgor Cyflawni Portffolio: GYMERADWYO** Cylch Gorchwyl y Pwyllgor Cyflawni Portffolio.	Cymeradwywyd	Dim i'w nodi
RHAN 3 – PRIF AGENDA			
3.1	**Cofnod Gweithredu (0)** **Penderfynodd y Pwyllgorau Cyflawni Portffolio: NODI'R** Cofnod Gweithredu.	Trafodwyd	Dim i'w nodi
RHAN 4 - ER SICRWYDD			
4.1	**Adroddiadau Sicrwydd Blynyddol** Cyflwynodd Ifan Evans, Cyfarwyddwr Gweithredol Strategaeth (IE), yr adroddiad a phwysleisiodd ar sefyllfa ariannu Iechyd a Gofal Digidol Cymru, gan egluro bod Llywodraeth Cymru wedi oedi ac yn adolygu Cronfa Fuddsoddi Blaenoriaethau Digidol (DPIF), sydd wedi creu rhywfaint o ansicrwydd i sawl rhaglen fawr. Nododd IE nad yw rhai rhaglenni (e.e. LIMS, RISP, EPS, EPMA, WCCIS) o fewn cwmpas yr oedi a'r adolygiad ac maent yn symud ymlaen gyda llythyrau cyllido un flwyddyn, tra bod eraill (gan gynnwys Ap GIG Cymru, Cysylltu Gofal, a'r Adnodd Data Cenedlaethol) yn cael eu hadolygu, gyda chyflwyniadau wedi'u gwneud yn ddiweddar i'w hasesu. Mewn ymateb, mae IGDC wedi atal cyllid ymlaen i bartneriaid, lle mae cyllid wedi'i wasgaru trwy IGDC i gyrff partner y GIG, gan gyfyngu ar ymrwymiadau ariannol newydd, a gofyn i raglenni leihau costau lle y bo modd. Bydd rhaglenni sy'n cael eu hadolygu yn cael eu marcio fel "heb eu hasesu" oherwydd ansicrwydd, tra bod eraill yn parhau i fod ar waith ond wedi'u nodi am risg adnoddau nes bod y statws ariannu yn y dyfodol wedi'i gadarnhau. **System Wybodaeth Gofal Dwys Cymru (WICIS)** Cyflwynodd Helen R Thomas, Arweinydd Rhaglen Gofal Brys a Gofal mewn Argyfwng (HRT) yr adroddiad: • Nod rhaglen WICIS yw darparu system ICU ddigidol fodern, safonol i Gymru, gan wella dogfennaeth, diogelwch a llif data cenedlaethol drwy adeiladu, dilysu a chynllunio gweithredu fesul	Rhoddwyd sicrwydd	Dim i'w Nodi

	cam. • Yn dilyn pryderon diogelwch cynnar ac adolygiad gan Lywodraeth Cymru, cytunwyd ar adferiad a chryfhawyd llywodraethu/arweinyddiaeth glinigol. Cyflwynwyd dull diwygiedig (Medi 2025). • Ar ddechrau 2026, ail-ymgysylltodd y rhaglen yn gyflym â rhanddeiliaid i gadarnhau cwmpas Cam 1, gan sicrhau sicrwydd clinigol a chefnogaeth weithredol a chwrdd â therfynau amser Llywodraeth Cymru. • Mae'r risgiau allweddol yn parhau: ymgysylltiad clinigol parhaus yn ystod seibiannau, cyfranogiad amrywiol Byrddau Iechyd ac ansicrwydd cyllido parhaus (wedi'i uwchgyfeirio i PDC), er bod ymrwymiad yn gwella (gan gynnwys ymgysylltiad newydd â BCU). • Mae achos buddion yn parhau i ganolbwyntio ar ddisodli prosesau papur a galluogi gofal mwy diogel a mwy effeithlon a data o ansawdd gwell, gyda rhagdybiaethau ariannol (e.e. gwariant ar feddyginiaethau) dan adolygiad. **System Rheoli Gwybodaeth Labordy - Adroddiad Diweddaru/Cau** Cyflwynodd Alison Maguire (AM), Cyfarwyddwr y Rhaglen Ddiagnosteg, yr adroddiad: • Mae LIMS yn rhaglen adfer gymhleth yn dilyn caffael aflwyddiannus; mae'r ddarpariaeth wedi'i hailgynllunio o ddull cywasgedig cychwynnol ac mae bellach yn rhedeg tan ddiwedd mis Medi 2026. • Mae'r raddfa'n parhau i fod yn sylweddol (38 labordy, ~8,000 o leoliadau, 2,000+ o brofion), gan yrru cymhlethdod gweithredu a dibyniaeth fawr ar gapasiti Byrddau Iechyd ar gyfer penderfyniadau profi a ffurfweddu. • Cynnydd allweddol: Aeth y Seiliau Technegol Cenedlaethol yn fyw ym mis Hydref 2025. Aeth Patholeg Gellog yn fyw yn llwyddiannus Iedled Cymru (Ion-Chwe 2026). Mae Byrddau Iechyd yn mynd rhagddo i gyflwyno'r mortiwari i ymdopi â phwysau'r gaeaf. • Lleoliadau nesaf: Microbioleg (dan arweiniad Iechyd Cyhoeddus Cymru i raddau helaeth), yna gwyddorau gwaed a thrallwysiad gwaed; cynlluniwyd cyflwyno'r gwasanaethau sy'n weddill erbyn diwedd mis Medi, gan nodi na fydd pob Bwrdd Iechyd yn mabwysiadu cydran trallwysiad gwaed LIMS 2. • Prif risgiau/problemau: Cyfaint uchel o ddiffygion/newidiadau a thagfeydd wrth ddefnyddio UAT; gofynion cynyddol o ran cwmpas/ffurfweddu (gan gynnwys gofyniad newydd am fynediad llawn amser real i ddata hanesyddol); mudo data a chymhlethdod rheoleiddiol ar gyfer trallwysiad		

	gwaed; a phwysau ariannu oherwydd amserlenni estynedig a chostau ychwanegol cysylltiedig (cais am gyllid i Lywodraeth Cymru, gyda chynlluniau wrth gefn dan ystyriaeth). • Llywodraethu / Sicrwydd Wedi'i reoli'n genedlaethol gan IGDC gyda chyflenwr o dan gontract canolog; safoni clinigol dan arweiniad strategaeth genedlaethol a grwpiau cynghori penodol i ddisgyblaethau; cyflawniad wedi'i gefnogi gan fyrddau haenog a grŵp gorchwyl a gorffen profi wythnosol, gyda chefnogaeth profi allanol ychwanegol yn cael ei chyflwyno i wella rhagweladwyedd. • Mae manteision yn parhau o safoni parhaus, cefnogaeth achredu a llai o faich gweithredol trwy seilwaith a gynhelir gan gyflenwyr. Mae adborth cynnar gan randdeiliaid yn gadarnhaol ar ôl mynd yn fyw, gan gefnogi momentwm ar gyfer y disgyblaethau sy'n weddill. **Caffael System Gwybodeg Radioleg - Adroddiad Diweddaru/Cau** Cyflwynodd Alison Maguire (AM), Cyfarwyddwr y Rhaglen Ddiagnosteg, yr adroddiad: • Mae'r Rhaglen Radioleg yn cwmpasu tair prif gydran: PACS, sy'n rheoli delweddu ei hun (megis delweddau MRI a sgan), y System Gwybodaeth Radioleg (RIS), sy'n cefnogi'r llif gwaith clinigol o'r dechrau i'r diwedd gan gynnwys apwyntiadau, amserlennu ac adrodd ar ganlyniadau diagnostig, a thrydedd system o'r enw Dos y Cleifion, sy'n monitro ac yn gwerthuso amlygiad cleifion i ymbelydredd yn ystod gweithdrefnau radioleg. • Mae'r rhaglen yn cyflawni dull integredig drwy gyfuno PACS a RIS fel rhan o un trawsnewidiad, yn hytrach na'u trin fel gweithrediadau ar wahân, gyda'r nod o wella cydgysylltu ar draws delweddu, rheoli llif gwaith a monitro diogelwch cleifion. • Mae Cyfnodau Mynd yn Fyw wedi digwydd ar gyfer Powys, Betsi Cadwaladr, Hywel Dda, yr Academi Ddelweddu, Cwm Taf Morgannwg, Bae Abertawe, a Felindre. Aeth pedwar sefydliad yn fyw mewn un mis. • Mae Caerdydd a'r Fro ac Aneurin Bevan wedi'u hamserlennu ar gyfer mis Mehefin, gyda'r rhaglen i ddod i ben ddiwedd mis Mehefin. • **Llywodraethu:** Mae gan bob Bwrdd Iechyd ei gontract ei hun gyda'r cyflenwr ac mae'n gyfrifol am ei weithredu. Mae IGDC yn darparu rheolaeth rhaglenni a rhyngwynebau cenedlaethol ac mae wedi cymryd camau i gefnogi rheoli contractau a thrafodaethau cyflenwyr ar gais Prif Weithredwyr y GIG.		

	• **Buddion:** Mae'r system newydd wedi'i safoni ledled Cymru, gan alluogi mwy o waith trawsffiniol a rhannu delweddau, gan gefnogi dull "Unwaith i Gymru". Mae'r system yn barod i'w defnyddio, heb unrhyw ddatblygiadau pwrpasol ar gyfer Byrddau Iechyd unigol. **Heriau Allweddol:** • **Rhestr Waith Fyd-eang:** Mae gweithrediad systemau cymysg yn cyfyngu mynediad at ddelweddau ei gilydd yn ystod y cyfnod pontio, gan olygu bod angen datrysiadau lleol dros dro a chyfrannu at oedi cyn mynd yn fyw. **Model contractio annibynnol:** Mae contractau a Chytundebau Lefel Gwasanaeth ar wahân i'r Byrddau Iechyd yn anodd eu rheoli ar raddfa fawr, gan sbarduno symudiad tuag at gydlynu cenedlaethol cryfach dan arweiniad IGDC. • **Capasiti a dilyniant cyflenwyr:** Mae cefnogi nifer o weithrediadau cyfochrog wedi ymestyn capasiti cyflenwyr, gan gynyddu'r risg dosbarthu ac ysgogi newidiadau i ddyddiadau mynd yn fyw. • **Pontio i Fusnes Fel Arfer** Mae angen sefydlogi cydlynol a pherchnogaeth glir wedi gweithredu'r rhaglen ac ar ôl i raglennu gau ar gyfer problemau sy'n weddill o ganlyniad i gyflwyniadau cyflym. **Penderfynodd y Pwyllgorau Cyflawni Portffolio: NODI'R** adroddiad er **SICRWYDD**.		
RHAN 5 – LLYWODRAETHU, RISG, PERFFORMIAD A SICRWYDD			
5.1	**Diweddariad Statws Uwchgyfeirio** Cyflwynodd Chris Darling (CD), Cyfarwyddwr Materion Corfforaethol | Ysgrifennydd y Bwrdd y diweddariad: • Symudodd IGDC o fonitro arferol lefel 1 i fonitro uwch lefel 3 ym mis Mawrth 2025, yn benodol ar gyfer cyflawni rhaglenni mawr o dan Fframwaith Uwchgyfeirio ac Ymyrryd GIG Cymru. • Dirprwywyd cyfrifoldeb goruchwylio i'r Pwyllgor Cyflawni Portffolio, gydag amlder cyfarfodydd yn cynyddu i bob chwe wythnos. • Ar 8 Ebrill, uwchgyfeiriwyd IGDC i ymyriadau wedi'u targedu lefel 4 gan Lywodraeth Cymru. • Nodwyd nad oes cyfarfod Perfformiad, Ansawdd a Chyflenwi Integredig wedi bod ers cyfarfod diwethaf y pwyllgor. • Mae cyfarfod Bwrdd Cyflawni DDAT wedi'i drefnu ar gyfer 13 Mai, lle bydd rhaglenni ar draws y system, gan gynnwys y rhai sydd o dan statws uwchgyfeirio, yn cael eu hadolygu. • O 01 Ebrill 2026 ymlaen, bydd Byrddau	Rhoddwyd sicrwydd	Dim i'w Nodi

	Uwchgyfeirio yn disodli cyfarfodydd perfformiad blaenorol, gyda chyfarfodydd bob yn ail fis wedi'u cynllunio yn seiliedig ar lefel uwchgyfeirio. • Mae'r bwrdd uwchgyfeirio cyntaf IGDC wedi'i drefnu ar gyfer mis Mehefin 2026. • Nodwyd bod oedi ac adolygu'r DPIF yn effeithio ar raglenni mawr o fewn cwmpas yr uwchgyfeirio. • Roedd gan y cynllun gwella monitro uwch (Mai 2025–Mawrth 2026) 47 o gerrig milltir; cyflawnwyd 45 (96%), 40 ar amser (85%), 5 yn hwyr ond wedi'u cwblhau, a 2 heb eu cyflawni (LIMS a RISP yn mynd yn fyw). • Mae gwersi sylweddol wedi'u dysgu dros y 10 mis diwethaf o gyflwyno'r rhaglen, yn enwedig o ran y dull cyflawni, ymgysylltu â rhanddeiliaid, cydweithio, llywodraethu'r rhaglen, Teipoleg a dull masnachol, gwireddu buddion, a'r cydbwysedd rhwng cyflawni gorfodol a gweithio ar y cyd. • Er bod y gwelliannau hyn wedi cryfhau dealltwriaeth a gallu, nid yw'r cynllun gwella cyffredinol wedi cyflawni'r lefel o newid a ddisgwyliwyd yn wreiddiol gan Lywodraeth Cymru ac mae wedi cael ei ystyried yn rhy drawsweithredol ei natur. • Roedd cynllun uwchgyfeirio cam dau wedi'i ddatblygu, ond mae ei statws wedi'i ohirio ar hyn o bryd tra bod fframwaith uwchgyfeirio diwygiedig yn cael ei gyflwyno. Unwaith y bydd hwn wedi'i gyhoeddi, bydd IGDC yn gweithio gyda Llywodraeth Cymru a'r Uned Perfformiad a Gwella ar ddull dau gam: yn gyntaf cam diagnostig, ac yna gwaith manylach i fynd i'r afael â materion a nodwyd. • Disgwylir diweddariadau pellach yn yr wythnosau a'r misoedd nesaf wrth i'r fframwaith hwn gael ei ddatblygu a'i weithredu. **Penderfynodd y Pwyllgorau Cyflawni Portffolio: NODI'R** sefyllfa ddiweddaraf mewn perthynas â statws uwchgyfeirio IGDC er SICRWYDD		
5.2	**Adroddiad Rhaglenni Mawr** Cyflwynodd Ifan Evans, Cyfarwyddwr Gweithredol Strategaeth, yr Adroddiad Rhaglenni Mawr fel trosolwg strwythuredig o gyflawni portffolio, gan gwmpasu statws RAG, hyder cyflawni, newidiadau cylch bywyd, uwchgyfeirio (gan gynnwys LIMS, RISP, a WICIS), a dull sgorio prosiectau newydd (gan gynnwys galluogi Copilot sy'n gysylltiedig ag Adnewyddu Saernïaeth Menter Microsoft 365). Nododd IE hefyd drawsnewidiad DSPP i fusnes fel arfer a bod rhaglenni nad ydynt yn rhaglenni mawr yn cael eu hadrodd trwy eithriad. Crynhowyd y portffolio yn dair grŵp: perfformwyr cryf (e.e.	Nodwyd	Dim i'w nodi

	mudo systemau meddygon teulu, EPS, EPMA, Microsoft 365 a saernïaeth darged), rhaglenni dan bwysau oherwydd cyfyngiadau (e.e. cwmwl, NDR, Cysylltu Gofal), a meysydd â llai o hyder (yn enwedig LIMS a'r ganolfan integreiddio) oherwydd cymhlethdod a dibyniaethau. Roedd y themâu allweddol yn cynnwys ansicrwydd cyllido, capasiti arbenigol cyfyngedig, cymhlethdod systemau etifeddol, a gwella aeddfedrwydd sicrwydd. Ar y cyfan, mae'r portffolio yn cyflawni ond o dan gyfyngiadau llym, gyda hyder anwastad ar draws rhaglenni. **Fframwaith Systemau Meddygon Teulu** Tynnodd Sam Hall (SH), Cyfarwyddwr Gwasanaethau Digidol Gofal Sylfaenol, Cymunedol ac Iechyd Meddwl, sylw at y canlynol: • Y statws Coch Melyn Gwyrdd cyffredinol oedd “Gwyrdd” • Mae'r newid o ddwy system meddygon teulu i un system Optum ledled Cymru bron wedi'i gwblhau, gyda dim ond 12 practis ar ôl i fudo a disgwylir iddo gael ei gwblhau erbyn diwedd mis Mai. • Roedd y prosiect yn cynnwys symud tua 200 o bractisiau meddygon teulu ac roedd angen llawer o baratoi a chydlynu technegol, dan arweiniad y Prif Reolwr Cyflawni a'i thîm. • Mae arweinyddiaeth weithredol gref a chydweithio agos â phartneriaid wedi bod yn allweddol i gyflawni'r newid yn llwyddiannus o fewn amserlen heriol. **Cytundeb Microsoft 365 Enterprise** Tynnodd Sam Lloyd, Cyfarwyddwr Gweithredol Gweithrediadau (SL), sylw at y canlynol: • Y statws Coch Melyn Gwyrdd cyffredinol oedd “Gwyrdd” • Mae IGDC a GIG Cymru yn adnewyddu eu cytundeb menter Microsoft 365 Cymru gyfan, sy'n cwmpasu offer fel Teams, SharePoint, OneDrive, Outlook, seilwaith, a galluoedd diogelwch. • Mae'r contract pum mlynedd presennol yn dod i ben; trafodwyd cytundeb newydd i sicrhau sefydlogrwydd prisiau hirdymor ac osgoi cynnydd sylweddol mewn costau. • Roedd y prosiect yn cynnwys cydweithio system eang, gyda bwrdd prosiect a grŵp gorchwyl yn cynrychioli pob sefydliad yng Nghymru, gan arwain at osod gofynion cynhwysfawr a thrafodaethau contract llwyddiannus gyda Microsoft. • Mae'r cytundeb newydd wedi'i gymeradwyo gan bob bwrdd, gan gynnwys IGDC, ac mae mewn trafodaethau cyn-lofnodi terfynol gyda Microsoft.		

	• Gwelir y canlyniad fel enghraifft gref o gydweithio effeithiol ledled Cymru, gan ddarparu contract ffafriol ac osgoi costau i'r system. **Pontio i'r Cwmwl** Tynnodd Sam Lloyd, Cyfarwyddwr Gweithredol Gweithrediadau (SL), sylw at y canlynol: • Y statws Coch Melyn Gwyrdd cyffredinol oedd "Melyn–Gwyrdd". • Nod y rhaglen oedd symud gwasanaethau IGDC o ganolfannau data ar y safle i ddarparwyr cwmwl masnachol, yn bennaf cyflenwyr ar raddfa uwch, er mwyn lleihau costau, gwella effeithlonrwydd ynni, ac osgoi treuliau ailosod caledwedd. • Mae tair ffrwd waith wedi'u sefydlu: Cyflwyno Seilwaith (cysylltedd, diogelwch, adeiladu platfform), Mudo ac Optimeiddio (symud a gwella gwasanaethau), a Newid Sefydliadol (adeiladu gallu rheoli cwmwl mewnol). • Mae cynnydd allweddol yn cynnwys cwblhau adeiladu platfform Azure, cysylltedd rhwydwaith, dyluniadau diogelwch, ac ymgysylltu â phartneriaid cymorth mudo (KPMG ac Atos) a'r dyluniadau saernïaeth a adolygwyd gan Microsoft a Google. • Mae'r rhaglen pontio i'r cwmwl wedi gwneud cynnydd o ran sefydlu sylfaen gryfach, gan gynnwys diweddariadau i'r strategaeth cwmwl, datblygu'r model gweithredu, a gwaith hyfforddi parhaus. • Fodd bynnag, bu'n rhaid ail-bennu'r amserlenni oherwydd heriau technegol, yn enwedig gyda phroblemau platfform Azure ac oedi mewn cysylltedd rhwydwaith, sydd bellach wedi'u datrys i raddau helaeth. Mae cynnydd hefyd wedi'i arafu gan heriau recriwtio a chapasiti cyfyngedig mewn meysydd arbenigol fel seiber. • Y brif risg yw ansicrwydd ariannu oherwydd oedi ac adolygiad y DPIF, a all arwain at gostau hirdymor uwch, gan gynnwys treuliau canolfannau data cynyddol, disodli caledwedd ar gyfer seilwaith sy'n heneiddio, ac adnewyddiadau meddalwedd sydd ar ddod fel Citrix. • Mae IGDC wedi cyfleu'r risgiau hyn a'r effeithiau cost posibl i Lywodraeth Cymru ac mae'n ystyried ailddefnyddio cronfeydd dewisol i liniaru oedi. **System Wybodaeth Gofal Dwys Cymru** Trafodwyd yn gynharach yn yr Adroddiad Sicrwydd Blynyddol **Caffael System Gwybodaeth Radioleg**		

	Trafodwyd yn gynharach yn yr Adroddiad Sicrwydd Blynyddol **System Rheoli Gwybodaeth Labordy** Trafodwyd yn gynharach yn yr Adroddiad Sicrwydd Blynyddol **Y Saernïaeth Darged Genedlaethol** Tynnodd Ifan Evans (IE), Cyfarwyddwr Gweithredol Strategaeth, sylw at y canlynol: • Y statws Coch Melyn Gwyrdd cyffredinol oedd “Gwyrdd” • Nod y prosiect Saernïaeth Darged Genedlaethol, a gomisiynwyd gan Lywodraeth Cymru ar gyfer GIG Cymru, oedd sefydlu dull saernïaeth fenter ar draws y system gan ddefnyddio'r offeryn Ardoq i fapio'r dirwedd ddigidol gyfredol a dylunio cyflwr yn y dyfodol sy'n lleihau darnio, dyblygu a dyled dechnegol. • Dros gyfnod o 12 mis, cyrhaeddodd y prosiect yr holl gerrig milltir a chyflawnodd Gynllun Buddsoddi Strategol, a oedd yn fframwaith ar gyfer achosion busnes yn y dyfodol wedi'u halinio â thrawsnewid systemau a chylchoedd cytundebol. • Mae'r cynllun wedi'i ddatblygu'n fwy ar gyfer seilwaith cenedlaethol (“sylfeini cenedlaethol”) nag ar gyfer elfennau lleol fel dyfeisiau, rhwydweithiau, a'r dirwedd gymwysiadau dameidiog iawn o dros 1,000 o systemau. Caiff y rhan fwyaf ohonynt eu rheoli'n lleol. • Cyfyngwyd ar gynnydd gan anawsterau wrth gael data manwl gan Fyrddau Iechyd ar gontractau a chynlluniau buddsoddi yn y dyfodol. Mae gwaith yn parhau gyda Llywodraeth Cymru i gryfhau hyn. • Er bod rhanddeiliaid wedi cymeradwyo cynllun prosiect ar gyfer 2026–27, mae'r broses weithredu wedi'i gohirio ar hyn o bryd oherwydd cyfyngiadau ariannu, gyda recriwtio ac ymgysylltu â chyflenwyr wedi'u hatal. Mae llywodraethu'n parhau'n gryf, gyda chyfranogiad rheolaidd Llywodraeth Cymru a chydlyniad ag arweinwyr polisi. **Adnodd Data Cenedlaethol** Tynnodd Ifan Evans (IE), Cyfarwyddwr Gweithredol Strategaeth, sylw at y canlynol: • Y statws Coch Melyn Gwyrdd cyffredinol oedd “Melyn–Gwyrdd”. • Mae llif data gweithredol byw yn cynyddu, gydag apwyntiadau Caerdydd a'r Fro ac adrodd mamolaeth bellach yn fyw trwy’r Adnodd Data Cenedlaethol. • Mae GitHub Enterprise wedi'i agor ar draws y sefydliad i gefnogi DevOps ystwyth, ac mae ymgysylltiad peirianneg feddalwedd yn gryf.		

	• Mae llywodraethu wedi cryfhau gyda phenodiad Cyfarwyddwr Digidol Iechyd Cyhoeddus Cymru, fel cadeirydd goruchwylio rhaglenni newydd, gan ddod â ffocws cryfach ar iechyd cenedlaethol a phoblogaeth. • Mae ymdrechion bellach yn canolbwyntio ar gyflymu mudo setiau data'r Byrddau Iechyd i'r NDR a'i alinio â storfeydd data cenedlaethol presennol. Mae cydlynu mewnol wedi gwella, gyda chydlyniad clir ar fapiau ffyrdd, dilyniant a chyfrifoldebau ar draws timau. • Mae'r risgiau'n cynnwys ansicrwydd cyllido a saib recriwtio, a all effeithio ar y ddarpariaeth os na chaiff ei datrys am sawl mis, yn enwedig gan fod chwarter y cyllid NDR yn cefnogi partneriaid allanol. **Moddion Digidol** **Rhagnodi a Gweinyddu Meddyginiaethau Electronig (EPMA)** Tynnodd Michelle Sell (MS), Cyfarwyddwr Rhaglenni ac Ymgysylltu, sylw at y canlynol: • Y statws Coch Melyn Gwyrdd cyffredinol oedd “Melyn–Gwyrdd”. • EPMA yw'r system electronig ar gyfer rhagnodi a rhoi meddyginiaethau mewn ysbytai, sy'n cefnogi Cofnod Meddyginiaethau a Rennir Iedled Cymru. • Mae Byrddau Iechyd ac Ymddiriedolaethau wedi dewis un o dri chyflenwr drwy gontract fframwaith, gyda dulliau defnyddio a chynnydd amrywiol. • Mae'r rhai a roddwyd ar waith yn ddiweddar yn cynnwys Cwm Taf Morgannwg, sy'n cael ei dreialu mewn ward mabwysiadu cynnar; Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr sydd wedi gwneud y cynnydd mwyaf gyda defnydd eang. • Mae Powys wedi'i drefnu i fynd yn fyw ar 05 Mai 2026 • Mae Llywodraeth Cymru wedi gofyn i IGDC gymryd rôl fwy cydlynol, gyda chyllid bellach yn cael ei sianelu drwy IGDC a tharged i bob Bwrdd Iechyd gwblhau'r gweithrediad erbyn mis Mawrth 2027, er bod hyn yn cael ei ystyried yn uchelgeisiol. • Mae IGDC yn casglu cynlluniau manwl gan Fyrddau Iechyd ac yn cysylltu â Llywodraeth Cymru ar gerrig milltir, gan anelu at fwy o eglurder a thryloywder yn y cynnydd. **Gwasanaeth Presgripsiynau Electronig (EPS)** Tynnodd Michelle Sell (MS), Cyfarwyddwr Rhaglenni ac Ymgysylltu, sylw at y canlynol: • Y statws Coch Melyn Gwyrdd cyffredinol oedd “Melyn–Gwyrdd”. • Mae EPS yn digideiddio'r broses o ragnodi meddyginiaethau y tu allan i ysbytai, gan ddisodli		

presgripsiynau papur â rhai electronig ar gyfer fferyllfeydd
- Mae'r cyflwyniad yn mynd rhagddo'n gyflym ledled Cymru, gyda chefnogaeth timau Cyfarwyddwr Gwasanaethau Digidol Gofal Sylfaenol, Cymunedol ac Iechyd Meddwl sy'n gweithio gyda meddygon teulu a fferyllwyr.
- Mae'r rhan fwyaf o fferyllfeydd bellach yn defnyddio'r system, gan wella effeithlonrwydd a chyfleustra i gleifion, nad oes angen iddynt gasglu presgripsiynau papur gan eu meddyg teulu mwyach.
- Mae swyddogaeth newydd yn cael ei threialu i ganiatáu i gleifion ddewis eu fferyllfa ddewisol ar gyfer pob presgripsiwn, gan gynnwys dewisiadau untro a rhestrau fferyllfa chwiliadwy.
- Mae datblygiad pellach wedi'i gynllunio i wella defnyddioldeb ac integreiddio EPS o fewn y system.

Hwb Integreiddio

Tynnodd Sam Lloyd, Cyfarwyddwr Gweithredol Gweithrediadau (SL), sylw at y canlynol:
- Y statws Coch Melyn Gwyrdd cyffredinol oedd “Melyn–Coch”
- Mae'r Hwb Integreiddio yn brosiect seilwaith craidd i ddisodli'r platfform integreiddio perchnogol presennol gydag ateb a adeiladwyd yn fewnol, gan alluogi dros 100 o wasanaethau byw yn IGDC a chefnogi rhyngweithrediadau ar draws mwy na 1,400 o systemau GIG Cymru.
- Cafodd statws y rhaglen ei israddio i Ambr-Goch oherwydd oedi o ran adnoddau, ond mae'r rheolwyr yn disgwyl adferiad wrth i staff newydd ymuno.
- Mae'r platfform technegol wedi'i adeiladu, gyda chyfnodau alffa a beta wedi'u cwblhau a'r llif integreiddio parod cyntaf ar gyfer cynhyrchu yn fyw ers mis Chwefror.
- Dechreuodd y prosiect gyda chyflenwr allanol i helpu i uwchsgilio'r tîm mewnol. Mae'r cyflenwr hwnnw bellach wedi gadael am resymau ariannol, ac mae recriwtio ar gyfer rolau allweddol wedi dod i ben, gyda phroses gynefino ar y gweill.
- Mae dyddiad dod i ben cytundebol ym mis Mehefin 2027 ar gyfer y platfform etifeddol; os bydd y mudo yn llithro, efallai y bydd costau ychwanegol yn cael eu hysgwyddo, ond mae opsiynau lliniaru ar gael.
- Bydd cynllun adfer manwl yn cael ei adolygu gan y bwrdd rheoli ym mis Mehefin.

Gwasanaethau Digidol ar gyfer Cleifion a’r Cyhoedd

Tynnodd Sam Hall (SH), Cyfarwyddwr Gwasanaethau Digidol Gofal Sylfaenol, Cymunedol ac Iechyd Meddwl, sylw at y canlynol:

	• Y statws Coch Melyn Gwyrdd cyffredinol oedd “Heb ei Asesu” • Newidiodd DSPP o raglen i gynnyrch ddiwedd mis Mawrth, gyda ffocws nawr ar reoli a blaenoriaethu'r ôl-groniad cynnyrch. • Mae oedi recriwtio ac adolygiad cyllid DPIF wedi cyfyngu ar allu i ehangu'r tîm datblygu apiau mewnol a pharhau â chefnogaeth allanol, gan ysgogi cynllunio wrth gefn mewnol i gynnal cynnydd. • Mae prosesau sicrwydd newydd wedi'u sefydlu, gan gynnwys strwythur goruchwylio tair haen sy'n cynnwys PNI y GIG, Llywodraeth Cymru, WAST, cynrychiolwyr clinigol uwch, a LLAIS (cyrff llais cleifion), er mwyn sicrhau dyluniad sy'n canolbwyntio ar y defnyddiwr ac offer cyson sy'n wynebu'r claf. • Mae'r cyfarfod goruchwylio cyntaf wedi'i drefnu ar gyfer 12 Mai 2026, gyda'r nod o alinio datblygu cynnyrch ag anghenion defnyddwyr a blaenoriaethau gwleidyddol, yn enwedig gan fod newidiadau llywodraeth yn cael eu rhagweld. • Gall diweddariadau i'r pwyllgor yn y dyfodol barhau, o ystyried pwysigrwydd yr ap a'r cynlluniau gwella parhaus. **Cysylltu Gofal** Tynnodd Sam Hall (SH), Cyfarwyddwr Gwasanaethau Digidol Gofal Sylfaenol, Cymunedol ac Iechyd Meddwl, sylw at y canlynol: • Y statws Coch Melyn Gwyrdd cyffredinol oedd “Melyn–Coch” • Mae'r rhaglen wedi'i hariannu'n llawn gan DPIF ac ar hyn o bryd mae mewn patrwm aros oherwydd y cyfnod oedi a'r adolygiad cyllido, gyda thîm bach yn ei le a'r ddarpariaeth yn dibynnu ar gaffaeliadau'r Bwrdd Iechyd sydd hefyd yn aros am gyllid. • Mae gwaith hanfodol, yn enwedig ym maes iechyd meddwl, yn cael ei flaenoriaethu gan ddefnyddio cronfeydd wrth gefn mewnol, ond os na cheir eglurder cyllido erbyn diwedd chwarter un, bydd y tîm yn cael ei adleoli i feysydd blaenoriaeth eraill o fewn IGDC. • Mae awdurdodau lleol mewn sefyllfa wahanol, ar ôl derbyn eu cyllid ac yn gallu bwrw ymlaen, ond heb gynnydd y Bwrdd Iechyd a'r system iechyd meddwl, mae'r cofnod gofal integredig yn parhau i fod yn anghyflawn. • Ystyrir bod y Cofnod Gofal Integredig yn hanfodol ar gyfer mentrau iechyd cymunedol ehangach, ac		

	mae oedi yn bygwth y gallu i gyflawni'r blaenoriaethau strategol hyn. **Penderfynodd y Pwyllgorau Cyflawni Portffolio: NODI'R** diweddariad yn yr Adroddiad Trosolwg o'r Rhaglenni Mawr ar statws rhaglenni allweddol a reolir gan IGDC.		
5.3	**Y Gofrestr Risg Gorfforaethol** Cyflwynodd Chris Darling, Cyfarwyddwr Materion Corfforaethol | Ysgrifennydd y Bwrdd yr adroddiad gan nodi bod 15 o risgiau ar y Gofrestr Risg Gorfforaethol, a bod saith ohonynt wedi'u neilltuo i'r Pwyllgor. Amlygwyd y risgiau canlynol: • DHCW0237 Effaith gofynion newydd ar adnoddau a'r cynllun • DHCW0298 Oedi wrth Weithredu WLIMS 2.0. • DHCW0333 Oedi Gweithredu WICIS • DHCW0347 Map Trywydd Pontio Saernïaeth Darged Genedlaethol • DHCW0348 Pontio i bensaernïaeth data newydd • DHCW0349 Tîm RADIS yn lleihau 25/26 • DHCW0354 Oedi ac Adolygu Cyllid DPIF Nododd CD fod dwy risg wedi'u tynnu o'r CRR. • **DHCW0352 Cyflawni Cerrig Milltir 2025-2026.** Cadarnhaodd MS fod perfformiad cyffredinol cryf yn erbyn y CTCI, gyda safle cyflawni terfynol o 94% a phob carreg filltir y llythyr cylch gwaith wedi'u cyflawni, gan nodi bod rhai cerrig milltir wedi'u haddasu trwy brosesau rheoli newid. • **DHCW0346-Adolygiad Llywodraethu DDaT.** **Ynghylch y Llythyr Cylch Gwaith, nododd CD y canlynol:** • Cynhaliodd y Bwrdd Sesiwn Ddatblygu a oedd yn canolbwyntio ar reoli risgiau ac uwchgyfeirio, yn benodol mewn ymateb i ofynion llythyr cylch gwaith. • Roedd y drafodaeth yn cynnwys adolygu goddefgarwch risg fesul rhaglen, gweithredu asesiadau mwy manwl, a sicrhau bod risgiau rhaglenni'n cael eu huwchgyfeirio'n gynnar i Lywodraeth Cymru. • Rhoddwyd pwyslais ar nodi a thynnu sylw at risgiau ar draws y system, yn enwedig y rhai sy'n ymwneud â chydweithio â chyrff eraill y GIG. **Penderfynodd y Pwyllgorau Cyflawni Portffolio:** • **DRAFOD** y Risgiau Corfforaethol a neilltuwyd i'r Pwyllgor Cyflawni Portffolio • **NODI** statws y Gofrestr Risg Gorfforaethol.	Trafodwyd a Nodwyd	Dim i'w nodi
RHAN 6 - MATERION I GLOI			
Unrhyw Faterion Brys Eraill • Ni chodwyd unrhyw fater brys.		Trafodwyd	Dim i'w nodi

Adroddiad Crynhoi Cynnydd y Pwyllgor i Fwrdd yr AIA	Nodwyd	Dim i'w nodi
Dyddiad y cyfarfod nesaf: • 06 Awst 2026	Nodwyd	Dim i'w nodi